TGAU

3020U30-1

DYDD MERCHER, 14 MAI 2025 – BORE
WEDNESDAY, 14 MAY 2025 – MORNING

CYMRAEG AIL IAITH – Uned 3
WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 3

ADRODDIADOL, PENODOL A CHYFARWYDDIADOL

1 awr 30 munud a'ch amser estynedig
1 hour 30 minutes plus your additional time allowance

Cyfenw
Surname _____

Enwau Cyntaf
First Name(s) _____

Rhif y Ganolfan
Centre Number _____

Rhif yr Ymgeisydd 0 _____
Candidate Number

Adran	Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Arholwr
A	1.	5	
	2.	3	
	3.	3	
	4.	10	
	5.	11	
	6.	9	
	7.	10	
B	8.	11	
	9.	18	
C	10.	20	
Cyfanswm			

CYFARWYDDIADAU
INSTRUCTIONS

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

Use black ink, black ball-point pen or your usual method.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y lleoedd gwag priodol ar y dudalen flaen.

Write your name, centre number and candidate number in the spaces provided on the front cover.

Atebwch BOB cwestiwn YN GYMRAEG yn y lleoedd gwag priodol.

Answer ALL questions IN WELSH in the spaces provided.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y tudalennau ychwanegol.

If you run out of space, use the additional pages at the back of the booklet. Question numbers must be given for all work written on the additional pages.

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill.

The use of dictionaries or any other resources is forbidden.

GWYBODAETH
INFORMATION

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.

Mae'r marciau ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau yn cael eu nodi fel a ganlyn: [✓ = 2 farc] ac ati.

Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2 farc] etc.

1. **Chwaraeon ydy hoff bwnc Blwyddyn 7.**

2. **Mae hanes yn ddiflas bob tro.**

3. **Mae dysgu iaith newydd fel Sbaeneg yn hwyl.**

4. **Dydy celf ddim yn boblogaidd yn yr ysgol hon. Mae'n ofnadwy.**

5. **Mae mathemateg yn bwysig ac mae'r athrawon yn dda.**

PYNCIAU YSGOL	**PYNCIAU YSGOL**

ADRAN A

1. **Mae cwricwlwm yr ysgol yn ddiddorol ac yn amrywiol, ond dydy pob dysgwr ddim yn mwynhau pob pwnc. Edrychwch ar farn dysgwyr Ysgol Bryn Awen gyferbyn.**

The school curriculum is interesting and varied but every learner doesn't enjoy every subject. Look at the opinions of the learners at Ysgol Bryn Awen opposite. [5 marc]

Nawr, rhowch y 5 pwnc yn y grid. Mae 3 o'r pynciau yn bositif (☺) ond dydy disgyblion ddim yn hoffi'r 2 bwnc arall (☹). Rhowch y pynciau yn y golofn gywir.

Now, put the 5 subjects into the grid. 3 of the subjects are positive (☺) but the pupils do not like the other 2 subjects (☹). Put the subjects in the correct column.

Almaeneg ydy iaith gyntaf Kerstin Cable ond mae hi'n gallu siarad wyth iaith wahanol. Ym marn Kerstin mae dysgu ieithoedd yn hwyl ac yn gyffrous.

Mae Kerstin yn gallu siarad sawl iaith gan gynnwys Ffrangeg, Cymraeg, Rwseg ac Eidaleg. Mae hi'n mwynhau dysgu iaith newydd ar hyn o bryd, sef Mandarin.

Mae podcast gyda hi hefyd. Mae hi'n hoffi annog pobl ifanc i ddysgu iaith arall.

2. **Mae pobl yn hoffi dysgu ieithoedd. Maen nhw'n gallu siarad llawer o ieithoedd. Darllenwch am hanes Kerstin Cable gyferbyn.**

People like learning languages. They can speak many languages. Read about Kerstin Cable opposite.

[3 marc]

Mae'r swyddfa wedi creu proffil Kerstin ond mae problem. Mae 3 ffaith yn anghywir yn y proffil. Mae'r ffeithiau anghywir MEWN PRIFLYTHRENNAU. Cywirwch y ffeithiau yn ofalus yn y golofn CYWIRIADAU.

The office has created Kerstin's profile but there's a problem. There are 3 incorrect facts in the profile. The incorrect facts are IN CAPITALS. Correct the facts carefully in the CYWIRIADAU column.

		CYWIRIADAU
Enw	Kerstin Cable	
SIARAD SAWL IAITH?	6	_____
Iaith ei chartref?	Almaeneg	
SIARAD CYMRAEG?	NAC YDY	_____
DYSGU NAWR?	RWSEG	_____

Dewch i ddysgu iaith newydd!

Mae siarad dwy iaith yn syniad da.

Felly dyma eich cyfle.

- **Cwrs Ffrangeg (ym mis Medi)** **1**
- **Cwrs Cymraeg (ym mis Medi a mis Hydref)** **2**
- **Cwrs Sbaeneg (ym mis Tachwedd)** **3**

				
Ciao	**Bonjour**	**Guten Tag**	**Shwmae**	**Hola**

3. **Mae cyrsiau i ddysgu ieithoedd newydd ar y ffordd. Dyma'r hysbyseb ar gyfer y papur lleol. Fodd bynnag, mae'r lluniau ar goll. Nodwch pa 3 baner fydd eisiau. Rhifwch y 3 baner (1 – 3) yn y bocsys cywir gyferbyn.**

There are courses to learn new languages on the way. Here is the advert for the local paper. However, the pictures are missing. Note which 3 flags will be needed. Number the 3 flags (1 – 3) in the correct boxes opposite. [3 marc]

Shwmae. Viktor Garjeno ydy i. Dw i'n dod o Hwngari ond symudodd i a fy teulu i Gymru yn 2022. Rydyn ni'n byw mewn fflat yng Caernarfon nawr, lle tawel ond lle hapus.

Mae dysgu Cymraeg yn pwysig i ni. Mae fy ffrinds yn y gwaith yn siarad Cymraeg ac maer plant yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol.
Ydy dysgu Cymraeg yn syniad da yn fy marn i? Ydw, yn sicr.
Felly, peidiwch a gwastraffu amser!

Byddwch chi ddim yn siomedig!

4. **Mae un o'r oedolion sy'n dysgu Cymraeg ar-lein wedi gofyn am eich help. Mae e wedi ysgrifennu neges ar y dudalen gyferbyn i wefan y dosbarth ond mae gwallau yn ei waith. Rydych chi wedi cytuno i gywiro ei waith yn ofalus. Mae 10 gwall yma. Dangoswch y cywiriadau yn y grid.**

One of the adults who is learning Welsh online has asked for your help. He has written a message on the opposite page for the class website but there are mistakes in his work. You have agreed to correct his work carefully. There are 10 mistakes here. Show the corrections in the grid. [10 marc]

1	2	3	4	5
6	7	8	9	10

CYMRAEG YN SIAPAN

Daeth myfyriwr ifanc o'r enw Takeshi Koike i Gymru i astudio ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant. Penderfynodd e ddysgu Cymraeg. Roedd e wrth ei fodd yn dysgu'r iaith ac yn dysgu am hanes Cymru. Hyd yma mae tua 120 o fyfyrwyr Siapan wedi dilyn y cwrs 30 wythnos i ddysgu Cymraeg. Maen nhw'n mwynhau'r profiad ac mae diddordeb mawr ganddyn nhw wybod mwy am y ddraig goch, yr Eisteddfod a bwydydd o Gymru.

5. **Rydych chi eisiau gwybod mwy am bobl sy'n dysgu Cymraeg tu allan i Gymru. Rydych chi'n darllen ar y dudalen gyferbyn am bobl ifanc yn dysgu Cymraeg yn Siapan.**

You want to know more about people learning Welsh outside Wales. You are reading on the opposite page about young people learning Welsh in Japan. [11 marc]

(i) **Mae eisiau dewis 2 lun i ddangos diddordebau pobl ifanc Siapan wrth ddysgu'r Gymraeg. Ticiwch (✓) y 2 lun yn glir.**

You need to choose 2 pictures to show the young people of Japan's interests when learning Welsh. Tick (✓) the 2 pictures clearly. [2 farc]

			

5 (ii) Pa UN o'r gosodiadau yma sy'n gywir? Ticiwch (✓) y gosodiad cywir yn y grid.

Which ONE of these statements is true? Tick (✓) the correct statement in the grid. [2 farc]

Cafodd Takeshi Koike ei eni yng Nghymru.	
Aeth Takeshi Koike i'r coleg yng Nghymru.	
Aeth Takeshi Koike yn ôl i Siapan i ddysgu Ffrangeg.	

RYUICHIRO HIRATA



Dysgodd Ryuichiro Hirata Gymraeg cyn dod i'r coleg yng Nghymru. Mae e'n dod o Kagawa yn Siapan ond daeth e i Gymru i astudio ieithoedd ym Mhrifysgol Bangor.

Yn ôl Ryuichiro Hirata mae dysgu Cymraeg yn bwysig. Y peth gorau am Gymru yn ei farn e ydy'r croeso. Roedd pobl Bangor yn siarad Cymraeg gyda fe bob dydd a mwynheuodd bob munud yn astudio yn y coleg. Roedd e wrth ei fodd yn gwrando ar Radio Cymru hefyd.

5 (iii) Darllenwch yr erthygl ar y dudalen gyferbyn. Rydych chi wedi cael cwestiynau am Ryuichiro Hirata. Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.

Read the article on the opposite page. You have received questions about Ryuichiro Hirata. Circle the correct answers.

(a) Ble oedd Ryuichiro Hirata yn byw pan ddechreuodd ddysgu Cymraeg? [1 marc]

Cymru / Siapan

(b) Ble aeth Ryuichiro i'r coleg? [1 marc]

Cymru / Siapan

(c) Beth sydd wedi ei helpu wrth ddysgu Cymraeg? Rhowch gylch o gwmpas 2 ateb. [2 farc]

y croeso / ei deulu / hanes Cymru /

pobl eraill yn siarad Cymraeg

5 (iv) Darllenwch neges Ryuichiro i'w ffrindiau yn Siapan.

Read Ryuichiro's message to his friends in Japan.

Mae'r iaith Gymraeg yn fyw!

(a) Ydych chi'n cytuno gyda'r neges?

Do you agree with the message? [1 marc]

5 (b) (iv)

Rhowch reswm dros eich ateb.

Give a reason for your answer. [2 farc]

1. **Mae'n hwyl ac yn helpu gwneud ffrindiau newydd. (Ffion)**

2. **Es i wersyll Llangrannog ym mlwyddyn 6, gwersyll Glan-llyn ym mlwyddyn 8 ac wedyn es i wersyll yr Urdd Caerdydd ym mlwyddyn 10. Mwynheuais i siarad Cymraeg gyda fy ffrindiau. (Elodie)**

3. **Dw i'n byw yng Nghymru a Chymraeg ydy iaith Cymru. Felly, mae dysgu iaith ein gwlad yn bwysig yn fy marn i. (Ben)**

4. **Dw i ddim yn hapus achos maedysgu Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn orfodol yn yr ysgol. Does dim dewis gyda ni. (Casper)**

5. **Mae dysgu iaith yn gallu bod yn heriol ond mae'n gallu bod yn ddiflas weithiau. (Chris)**

6. **Mae nain a mam yn siarad Cymraeg. Felly roeddwn i eisiau siarad Cymraeg hefyd. (Dai)**

6. **Mae pobl yn dysgu Cymraeg am resymau gwahanol. Darllenwch am resymau y bobl gyferbyn.**

People learn Welsh for different reasons. Read about the people's reasons opposite. [9 marc]

(i) **Nodwch 3 pheth positif am ddysgu Cymraeg o'r sylwadau gyferbyn.**

Note 3 positive things about learning Welsh from the comments opposite. [3 marc]

1. _____

_____

2. _____

_____

3. _____

_____

6 (ii) Pa un o'r bobl yma sy'n debyg i chi?

Which one of these people is similar to you?

[1 marc]

(iii) Rhowch reswm dros eich ateb.

Give a reason for your answer. [2 farc]

6 (iv) Mae teulu newydd wedi symud i'r ardal o Iwerddon. Mae'r mab yn poeni am ddysgu Cymraeg. Beth ydy eich CYNGOR i'r bachgen? Rhowch resymau.

A new family has moved to the area from Ireland. The son is worried about learning Welsh. What is your ADVICE to the boy? Give reasons. [3 marc]

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

Everyone is welcome.	**There will be tea, coffee and sandwiches.**	**A morning full of fun.**
Be bilingual!!	**There’s no cost.**	**A new experience? Why not!!**

7. **Rydych chi'n helpu gyda'r Clwb Clonc i ddysgwyr bob mis. Mae'r tiwtor wedi gofyn i chi ysgrifennu sylwadau dwyieithog er mwyn denu dysgwyr newydd. Bydd modd defnyddio'r sylwadau ar bosteri yn y gweithle ac yn y papur bro. Felly mae'n rhaid i chi gyfieithu'r sylwadau gyferbyn i'r Gymraeg.**

You are helping with the Clwb Clonc for learners every month. The tutor has asked you to write some bilingual comments in order to attract new learners. These comments can then be used on posters in the workplace and in the local paper. Therefore, you must translate the comments opposite into Welsh. [10 marc]

CYFLE ANHYGOEL I DDEG PERSON IFANC YN YR ARDAL

Cwrs sgiliau digidol i bobl ifanc (14–16)
Bydd y cwrs yn para 3 diwrnod yn ystod hanner tymor Hydref 26–28 (dydd Llun – dydd Mercher)

Diwrnod 1: Sgiliau pwysig y byd digidol.
Diwrnod 2 a 3: Bydd cyfle i ddewis un o'r opsiynau isod.

- **Apiau ac animeiddio**
- **Ffotograffiaeth**
- **Ffilmio a golygu**
- **Gyrfa yn y byd digidol**

Fydd dim cost a bydd bwyd ar gael bob dydd hefyd.

Felly, cysylltwch â Griff Harries cyn Mai 10. Bydd eisiau anfon ebost yn cynnwys eich manylion personol a'ch rheswm dros ymgeisio. (gharries950@gmail.com)

Os oes cwestiwn, ffoniwch 07839 273820
Mae mwy o fanylion ar ein gwefan, sef www.cyfle.com

ADRAN B

8. **Mae cyfle i ddeg person ifanc o'r ardal fynd ar gwrs sgiliau digidol. Mae'r hysbyseb gyferbyn wedi cael ei rhannu gyda phob ysgol y mis hwn. Darllenwch yr hysbyseb yn ofalus.**

There is an opportunity for ten young people in the area to go on a digital skills course. The advert opposite has been shared with every school this month. Read the advert carefully. [11 marc]

(i) **Sut mae'r cwmni yn helpu sicrhau bod y cwrs yn bosibl i unrhyw berson ifanc? Meddyliwch am 2 beth.**

How is the company helping to ensure that the course is possible for any young person? Think of 2 things.

- _____

_____

[1 marc]

- _____

_____

[1 marc]

8 (ii) Sut mae'r cwmni yn helpu sicrhau bod ysgolion yn hapus i hyrwyddo'r cwrs?

How is the company helping to ensure that schools are happy to promote the course?

[1 marc]

(iii) Ydy'r cwrs yn swnio fel cyfle anhygoel yn eich barn chi?

Does the course sound like an amazing opportunity in your opinion? [1 marc]

---

8 (iv) Rhowch reswm.

Give a reason. [2 farc]

(v) Pa mor bwysig ydy technoleg heddiw yn eich barn chi?

How important is technology today in your opinion? [1 marc]

8 (vi) Sut ydych chi'n defnyddio technoleg bob dydd? Rhowch 2 enghraifft.

How do you use technology every day? Give 2 examples.

- _____

_____

_____

_____

[2 farc]

- _____

_____

_____

_____

[2 farc]

9. **Mae cais un person ifanc gyferbyn. Mae e'n gofyn am le ar y cwrs. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen gyferbyn i dudalen 23 gyda'i fanylion ar gyfer y pwyllgor.**

One young person's application is opposite. He is asking for a place on the course. You must fill in the form opposite to page 23 with his details for the committee. [18 marc]

9 (i) Llenwch y ffurflen gyferbyn yn ofalus.

Fill in the form opposite carefully. [13 marc]

9 (ii) Mae sgiliau digidol yn bwysig heddiw. Ysgrifennwch nodyn at y pwyllgor yn esbonio hyn a gofyn iddyn nhw drefnu ail gwrs yn y dyfodol.

[5 marc]

Bydd eisiau:

- **cyfarchiad [1 marc]**
- **nodi pwysigrwydd sgiliau digidol heddiw [2 farc]**
- **gofyn am ail gwrs sgiliau digidol [1 marc]**
- **cyfiawnhau'r cwrs [1 marc]**

Digital skills are important today. Write a note to the committee explaining this and ask them to arrange a second course in the future.

You will need:

- **a greeting [1 marc]**
- **to note the importance of digital skills today**

[2 farc]

- **to ask for a second digital skills course [1 marc]**
- **to justify the course [1 marc]**

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

ADRAN C

YSGRIFENNU

10. **Ysgrifennwch (tua 150 gair) yn Gymraeg ar UN o'r canlynol.**

Write (around 150 words) in Welsh on ONE of the following. [10 marc + ✓ = 10 marc] = [20 marc]

NAILL AI

Targed y llywodraeth ydy cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydych chi'n ysgrifennu blog bob wythnos ac felly rydych chi'n ymateb i'r targed yma yn eich blog nesaf. Rydych chi eisiau pwysleisio rhan pob person ifanc i helpu i gyrraedd y targed.

Rhaid i chi gynnwys:

- **teitl i'r blog a'ch rheswm dros ysgrifennu [2 farc]**
- **manteision dysgu Cymraeg [3 marc]**
- **barn ar darged y llywodraeth [2 farc]**
- **her i bobl ifanc Cymru [2 farc]**
- **diwedd priodol [1 marc]**

EITHER

The government's target is to get a million Welsh speakers by 2050. You write a weekly blog and so you are responding to this target in your next blog. You want to emphasise every young person's responsibility to help reach the target.

You must include:

- **a title for the blog and your reason for writing [2 farc]**
- **the advantages of learning Welsh [3 marc]**
- **your opinion on the government's target [2 farc]**
- **a challenge for the young people of Wales [2 farc]**
- **an appropriate ending [1 marc]**

NEU

Mae cynnig cyrsiau am ddim i bobl ifanc mor bwysig heddiw er mwyn dysgu sgiliau newydd. Yn dilyn llwyddiant y cwrs sgiliau digidol, mae'r cyngor lleol wedi addo cynnig cyrsiau gwahanol y flwyddyn nesaf ond maen nhw eisiau syniadau er enghraifft, cwrs drama. Nid oes rhaid i bob cwrs fod yn academaidd. Rydych chi'n ysgrifennu llythyr at y cyngor yn awgrymu cwrs i'r dyfodol.

Rhaid i chi gynnwys:

- **eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu [1 marc]**
- **pwysigrwydd cyrsiau / gweithgareddau i bobl ifanc [3 marc]**
- **syniadau ar gyfer cwrs gwahanol gyda rhesymau [3 marc]**
- **manylion ymarferol i'w hystyried, er enghraifft lleoliad, dyddiadau [2 farc]**
- **diwedd priodol [1 marc]**

OR

Offering free courses for young people is so important today in order to learn new skills. After the success of the digital skills course, the local council has promised to offer different courses next year but they want ideas, for example a drama course. Every course does not have to be academic. You are writing a letter to the council suggesting a course for the future.

You must include:

- **your name and your reason for writing [1 marc]**
- **the importance of courses / activities for young people [3 marc]**
- **deas for a different course with reasons [3 marc]**
- **practical details to be considered, for example location, dates [2 farc]**
- **an appropriate ending [1 marc]**

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

DIWEDD Y PAPUR
END OF PAPER

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

Rhif y Cwestiwn	Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.

Rhif y Cwestiwn	Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.

Rhif y Cwestiwn	Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.

Rhif y Cwestiwn	Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.

I	gharries950@gmail.com
Oddi wrth	owsg93@yahoo.co.uk
Testun	Cwrs Digidol (Hydref 26–28)

Bore da Mr Harries

Gareth Owen ydy fy enw i ac mae diddordeb enfawr gen i yn y cwrs sgiliau digidol. Gwelais yr hysbyseb ar Instagram yr ysgol ac mae'r cwrs yn swnio'n wych ac yn ddiddorol iawn. Rydw i'n un deg pedwar oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Brynawen (ym mlwyddyn deg). Rydw i'n astudio deg pwnc TGAU yn cynnwys TGCh ac felly rydw i'n mwynhau gweithio efo cyfrifiaduron. Hefyd mae diddordeb gen i yn y byd ffilm ac animeiddio. Rydw i wedi gweld hysbysebion cyrsiau eraill yn y gorffennol ond maen nhw'n ddrud ac yn bell i ffwrdd. Mae'r cwrs yma yn yr ardal ond hefyd does dim cost. Felly mae fy rhieni yn hapus iawn i mi ymgeisio. Hoffwn i astudio graffeg ac animeiddio yn y coleg yn y dyfodol. Felly bydd y cwrs yn fy helpu yn sicr.

Yn fy amser hamdden dw i'n mwynhau gwylio ffilmiau ond hefyd rydw i'n helpu efo'r theatr lleol yn enwedig gyda'r deunydd marchnata a setiau'r sioeau. Mae'r gwaith yn gyffrous ac yn heriol. Rydw i wrth fy modd yn gweithio mewn tîm a dysgu sgiliau newydd.

Mae Mrs Ella Perkins, athrawes TGCh yr ysgol a Mr Callum Anderson, athro celf, yn hapus i ysgrifennu geirda os oes eisiau.

Fy ebost ydy owsg93@yahoo.co.uk ond mae gen i rif ffôn hefyd, sef 07283660185.

Diolch yn fawr am ddarllen fy nghais.

Yn gywir

Gareth Owen

ENW LLAWN	**Gareth Owen**
MANYLION CYSYLLTU (x2)	**1.** _____ **2.** _____ **[2 farc]**
OED	**[1 marc]**
YSGOL	**[1 marc]**
DIDDORDEBAU (x2)	_____ _____ **[2 farc]**
ASTUDIO TGCh YN YR YSGOL?	**Ydy / Nac ydy** **[1 marc]**
RHESYMAU DROS YMGEISIO (x2)	**1.** _____ _____ _____ **2.** _____ _____ _____ **[2 farc]**
ENW CANOLWR	**[1 marc]**

Llofnod : _____

Dyddiad heddiw : _____

[1 marc]